Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Datganiad i'r wasg

Dyddiad: **14 Mehefin 2010**

Teitl*:* Llwyddiant ym myd busnes i brifysgolion Cymru

Mae arolwg diweddaraf y DU ar sut mae sefydliadau addysg uwch (AU) yn gweithio gyda busnes ac yn cynhyrchu busnes yn dangos bod prifysgolion yng Nghymru yn helpu cwmnïau a'r economi i ddod drwy amserau ansicr a gosod sylfeini cadarn at y dyfodol.

Mae'r Arolwg Rhyngweithiad Addysg Uwch â Busnes a'r Gymuned (HE-BCI) yn dangos sut mae prifysgolion Cymru yn cymhwyso eu gwybodaeth, arbenigedd a chyfleusterau er mwyn cyfrannu at flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru, sef cyfiawnder cymdeithasol a chefnogi economi bywiog.

Yn 2008/2009, cynhyrchodd prifysgolion Cymru, sy'n darparu 5% o addysg uwch y DU, 10% o'r holl fusnesau newydd a dechreuwyd gan raddedigion y DU a thros 12% o drosiant (tuag £16.5 miliwn) yr holl gwmnïau gweithredol a ddechreuwyd gan raddedigion y DU.

Darparasant hefyd 8% o'r holl ddyddiau dysgwr ym meysydd datblygiad proffesiynol parhaus ac addysg barhaus a gynhaliwyd gan brifysgolion y DU.

Ond cafodd yr hinsawdd economaidd bresennol effaith anffafriol ar faint y rhyngweithio rhwng prifysgolion a busnesau. Fel y gweddill o'r DU, mae Cymru wedi gweld gostyngiad yn y gwasanaethau ymgynghori a datblygiad proffesiynol parhaus a ddarperir gan brifysgolion ar gyfer mentrau bach a chanolig a busnesau

mawr. Hefyd bu gostyngiad mewn incwm o ymchwil ar y cyd sy'n cael ei ariannu gan y pwrs cyhoeddus a busnes.

Meddai'r Athro Philip Gummett, Prif Weithredwr CCAUC: "Wrth i'r sector addysg uwch Cymreig barhau i fynd i'r afael â'r sialensiau economaidd presennol, mae'n galonogol gweld o'r dystiolaeth ddiweddaraf hyn fod y sector yn adeiladu ymhellach ar ei gyflawniadau yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

"Mewn nifer o ffyrdd allweddol, mae cyfraniad sector addysg uwch Cymru at economi'r DU yn parhau'n sylweddol mewn perthynas â'i faint hyd yn oed yn ystod y cyfnod economaidd helbulus hwn. Mae hyn yn darparu seiliau cadarn, ond mae angen i ni barhau i feithrin cysylltiadau cryfach a gwell rhwng addysg uwch a diwydiant er mwyn cynnal ac ysgogi adferiad economaidd yng Nghymru. Bydd ein galwad am strategaethau addysg uwch rhanbarthol, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, yn helpu cyflogwyr lleol i gyrchu'r cymorth y gall ein prifysgolion ei gynnig."

[Web link]

Meddai'r Athro Robin Williams, FRS, Cadeirydd Pwyllgor Ymchwil, Arloesedd ac Ymwneud CCAUC: "Mae llawer o sialensiau economaidd yn wynebu Cymru ac mae angen sector addysg uwch cryf arnom sy'n gefnogol i fusnes i helpu i roi arweiniad i Gymru ar yr adeg hon.

"Mae llawer eto i'w wneud i weithredu strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer addysg uwch yng Nghymru, ond mae'r ffigurau trawiadol hyn yn dangos i ni fod y sector addysg uwch Cymreig eisoes yn codi i'r her.

"Mae Cymru'n wlad rhy fach i ni geisio cwrdd â'r her ar ein pennau ein hunain, ond drwy weithio gyda'i gilydd gall ein prifysgolion roi hwb mawr i'r adferiad economaidd."

Dangosodd y casgliadau eraill fod prifysgolion Cymru:

- wedi sicrhau cynnydd o 21% mewn ymchwil dan gontract ar ran mentrau bach a chanolig a chynnydd o 77% yn yr incwm cysylltiedig o'u cymharu â ffigurau'r flwyddyn flaenorol
- yn cyfrif am 6% o holl gontractau ymgynghori'r DU â mentrau bach a chanolig
- wedi cynhyrchu **7**% o'r holl fusnesau deilliedig a busnesau newydd a gychwynnwyd gan staff ym mhrifysgolion y DU
- wedi sicrhau cynnydd o 20% mewn incwm o fasnacheiddio eu heiddo deallusol, ac yn parhau i wella eu cyfran o weithgarwch patentu a thrwyddedu'r DU.

Mae pob prifysgol yng Nghymru yn darparu cysylltiad penodol ar gyfer mentrau bach a chanolig ac yn cynnig amrywiaeth eang o wasanaethau busnes.

CCAUC – cysyllter ag: Emma Raczka, Rheolwr Cyfathrebu
029 2068 2225 emma.raczka@hefcw.ac.uk

Nodiadau

Mae'r nawfed adroddiad blynyddol *Rhyngweithiad Addysg Uwch â Busnes a'r Gymuned* (HE-BCI) yn gyhoeddiad ar y cyd gan yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (BIS) a'r cyrff cyllido addysg uwch yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

(*Gellir darparu astudiaethau achos*)

Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yw **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru** (CCAUC) sy'n gyfrifol am weinyddu'r cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal:

- yr addysg a ddarperir mewn sefydliadau addysg uwch (SAUau);
- yr ymchwil a wneir gan SAUau; a
- chyrsiau addysg uwch penodedig a ddarperir mewn sefydliadau addysg bellach.

Mae’r Cyngor hefyd yn gyfrifol am achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol ar gyfer athrawon ysgol ac am gomisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant athrawon.

Yn ogystal â’i gyfrifoldebau cyllido, mae’r Cyngor yn cynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru ar anghenion ariannol, dyheadau a phryderon y sector addysg uwch yng Nghymru.